**EITEM AR YR AGENDA: 11**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**18$^{fed}$ Mawrth 2013**

## NEWIDIADAU I GYNLLUN CYDNABYDDIAETH ARIANNOL ATAGC 2012

**Adroddiad gan Colin Everett, Clerc i'r Awdurdod**

## Diben yr Adroddiad

1 Ystyried newidiadau i Gynllun Cydnabyddiaeth Ariannol yr Awdurdod ar ôl i Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol ei ystyried.

## Cefndir

2 Yn ei gyfarfod ar 18$^{fed}$ Mehefin 2012 cymeradwyodd yr Awdurdod ei Gynllun Cydnabyddiaeth Ariannol terfynol i'w roi ar waith ar 18$^{fed}$ Mehefin 2012.

3 Yn Rhagfyr 2012 aeth Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol ati i gynnal dadansoddiad manwl o'r Cynlluniau Cydnabyddiaeth Ariannol ar gyfer 2012/13 gan bob "awdurdod perthnasol".

## Gwybodaeth

4 Yn Atodiad 3 o Adroddiad Blynyddol y Panel yn Rhagfyr 2011, amlinellodd y Panel beth y disgwylid ei gynnwys o fewn cynllun cydnabyddiaeth ariannol.

5 Nododd y Panel dri ymholiad mewn perthynas â Chynllun GTAGC fel a ganlyn:

a) dim yn crybwyll y terfyn uchaf ar Uwch Gyflogau;
b) dim cyfeiriad at y gyfradd hawlio milltiroedd ar gyfer beic modur (sef 24c);
c) dim yn cynnwys unrhyw ddatganiadau ynghylch:
   - bod datganiad o gyfrifoldeb sylfaenol cynghorydd yn ei le
   - bod disgrifiadau o rôl deiliaid swyddi Uwch Gyflogau yn eu lle
   - bod cofnodion yn cael eu cadw ynghylch presenoldeb cynghorwyr
   - bod adroddiadau blynyddol yn cael eu paratoi gan gynghorwyr, a'u cyhoeddi ar wefan y cyngor.

6 Mae'r Panel wedi gofyn i'r Atodlen gael ei diweddaru i gynnwys yr wybodaeth uchod.

**Argymhelliad**

7 Gofynnir i'r Aelodau gymeradwyo ychwanegu'r canlynol i'r Cynllun Cydnabyddiaeth Ariannol:

(i) bod datganiad yn cadarnhau bod "[nad] aethpwyd y tu hwnt i derfyn uchaf yr Uwch Gyflogau a osodwyd ar gyfer yr awdurdod" i gael ei ychwanegu at Atodiad 1;

(ii) bod cyfradd hawlio milltiroedd o 24c y filltir ar gyfer beic modur yn cael ei ychwanegu i'r atodlen dan Atodiad 3; a

(iii) bod adran 20 newydd yn cael ei hychwanegu at gynllun ATAGC sy'n cynnwys datganiadau fel yr amlinellir yn 5 (c) uchod.